



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyllideb Cymru 2023–2024




Sut mae Llywodraeth Cymru yn gwario'ch arian?


- Mae gan Gymru ei llywodraeth ei hun. Mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu ble y dylid dyrannu cyllid a sut y dylid ei ddefnyddio, yn seiliedig ar anghenion lleol.
- Mae'r Gweinidog Cyllid, Rebecca Evans, yn nodi'r penderfyniadau hyn yn y Gyllideb.
- Bydd yr arian sy'n cael ei wario yng Nghymru yn cael ei godi drwy drethi gan bobl a busnesau.
- Mae rhai o'r trethi hyn yn cael eu codi gan Lywodraeth Cymru: daw 18c o bob £1 yr ydym yn ei gwario yng Nghymru o drethi Cymreig.
- Bydd y trethi eraill yn cael eu codi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac maent yn berthnasol i'r DU gyfan, gan gynnwys Cymru.
- Mae gan Lywodraeth Cymru gyllideb o £20bn ar gyfer y flwyddyn rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.
- Fe'i defnyddir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru ac i gefnogi dinasysddion, cymunedau a busnesau.
- Y llynedd, amlinellodd y Gweinidog Cyllid ein cynlluniau gwario dros gyfnod o dair blynedd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2025 yn yr Adolygiad o Wariant Cymru.
- Yn y gyllideb eleni, rydym yn diweddarau'r cynlluniau hynny – rydym wedi cael rhywfaint o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU ond nid yw'n ddigon i ddelio â'r pwysau sylweddol sy'n ein hwynebu.
- Mae chwyddiant ar ei lefel uchaf ers 40 mlynedd. Golyga hyn ein bod yn cael llai am ein harian nag o'r blaen – mae popeth yr ydym yn ei brynu a chostau cynnal gwasanaethau wedi cynyddu'n sylweddol iawn. Mae prisiau ynni'n uchel iawn ar hyn o bryd hefyd.
- Mae hyn oll wedi gwneud proses cyllideb 2023-24 yn un anodd tu hwnt. Mae Gweinidogion wedi gorfod gwneud dewisiadau caled iawn.

Sut rydym yn bwriadu gwario'r arian ar gyfer Cymru dros y flwyddyn nesaf?

Cyfanswm y cyllid refeniw



Cyfanswm y cyllid cyfalaf



Mae Cyfalaf a Refeniw yn eiriau y byddwch yn eu clywed wrth inni sôn am Gyllideb Llywodraeth Cymru

Mae cyllid refeniw yn arian y gallwn ei ddefnyddio i dalu cyflogau pobl a rhedeg ysgolion ac ysbytai, neu i helpu busnesau ac elusennau sy'n helpu pobl neu'n edrych ar ôl ein hamgylchedd.

Mae arian cyfalaf yn arian y gallwn ei ddefnyddio i wario ar adeiladau, tai, ffyrdd, prosiectau ynni fel tyrbinau gwynt, ysbytai ac ysgolion newydd.

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyfanswm y cyllid refeniw – £10.1 biliwn

Cyfanswm y cyllid cyfalaf – £375 miliwn

Mae'r gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ariannu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru.

Mae'n talu cyflogau'r meddygon, y nyrsys a'r deintyddion sy'n gofalu amdanom, ac yn talu am redeg ein hysbytai a'n canolfannau iechyd ac am ein meddyginiaethau. Mae hefyd yn cefnogi'r rhaglenni a'r cynlluniau sy'n helpu i'n cadw'n iach.

Mae ychydig dros hanner cyllideb Cymru yn cael ei wario ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac mae'r rhan fwyaf o hwnnw'n mynd yn uniongyrchol i ariannu'r GIG. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn y GIG i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen a sicrhau y gall pawb gael gofal pan fydd arno ei angen, ynghyd â lleihau amseroedd aros a oedd wedi cynyddu yn ystod y pandemig.

Bydd y cyllid hwn hefyd yn helpu i wella gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae gofal cymdeithasol yn chwarae rôl hanfodol o ran cefnogi pobl yng Nghymru – gan eu helpu i fyw bywydau llawn ac annibynnol – ac mae hefyd yn cefnogi'r GIG ehangach. Rydym yn buddsoddi i sicrhau bod pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn cael y Cyflog Byw Gwirioneddol – gan wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu talu'n deg am eu gwaith. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i gefnogi recriwtio yn y sector hanfodol hwn.

Bydd ein buddsoddiadau cyfalaf yn sicrhau bod gan y GIG y cyfleusterau gorau posibl mewn ysbytai a chymunedau lleol. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn technoleg ddigidol ar gyfer y GIG. Yn anffodus, bydd y lefelau chwyddiant eithriadol o uchel yn effeithio ar ein cynlluniau cyfalaf.

Cyllid a Llywodraeth Leol

Cyfanswm y cyllid refeniw – £5.8 biliwn*

Cyfanswm y cyllid cyfalaf – £224 miliwn

Mae cyllid ar gyfer awdurdodau lleol yn cefnogi ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, tai ac ystod eang o wasanaethau lleol eraill yr ydym ni i gyd yn dibynnu arnynt.

Mae awdurdodau lleol o dan bwysau sylweddol yn sgil chwyddiant a biliau ynni uchel a mwy o alw am wasanaethau. Maent hefyd wedi bod yn y rheng flaen o ran darparu gwasanaethau a chymorth i'r miloedd o bobl sydd wedi ceisio noddfa a diogelwch yng Nghymru o ganlyniad i'r gwrthdaro sy'n parhau yn Wcráin.

Rydym yn darparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol i helpu i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, gan gynnwys ysgolion, ac i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i staff gofal cymdeithasol.

Mae busnesau o dan bwysau hefyd. I helpu busnesau drwy'r argyfwng costau byw hwn, rydym yn darparu nifer o gynlluniau cymorth i'w helpu i dalu eu biliau ardrethi, gan eu cefnogi drwy'r dirwasgiad.

** Mae'r swm hwn yn cynnwys yr arian a gawn o ganlyniad i ardrethi annomestig. Treth a gesglir oddi wrth fusnesau yn eich ardal chi ac ar draws Cymru yw hon. Mae awdurdodau lleol yn gwario'r arian ar wasanaethau pwysig yn eich cymuned.*

Y Gymraeg ac Addysg

Cyfanswm y cyllid refeniw – £1.8 biliwn

Cyfanswm y cyllid cyfalaf – £373 miliwn

Mae addysg yn allweddol i helpu pob plentyn i gyrraedd ei botensial llawn.

Yn anffodus, amharodd y pandemig ar addysg llawer o blant – nid ydym am i'r argyfwng costau byw wneud hynny hefyd.

Caiff ysgolion eu hariannu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol ond mae cyllideb addysg Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi gwariant mewn ysgolion ac ar ysgolion, athrawon a rhaglenni addysg ehangach, gan gynnwys prydau ysgol am ddim, cyflwyno'r cwricwlwm newydd, hyfforddi athrawon a chymorth i helpu dysgwyr i adfer ar ôl y pandemig.

Yr Economi

Cyfanswm y cyllid refeniw – £436 miliwn

Cyfanswm y cyllid cyfalaf – £106 miliwn

Mae ein cyllideb ar gyfer yr Economi yn helpu i ariannu ystod eang o raglenni sy'n cefnogi busnesau a phobl – yn enwedig pobl ifanc – i wella eu sgiliau; sicrhau gwaith a chynyddu cyfleoedd bywyd pawb.

Mae hyn yn bwysig iawn tra mae economi'r DU mewn dirwasgiad.

Mae hefyd yn cefnogi treftadaeth a diwylliant cyfoethog Cymru. Fel pob rhan arall o'r sector cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau, mae'r cyrff sy'n darparu gwasanaethau diwylliant a chwaraeon o dan bwysau. Rydym yn gwario hynny o arian sydd ar gael i helpu'r sefydliadau hyn i barhau i ddarparu gwasanaethau i bobl yn y dyfodol.

Newid Hinsawdd

Cyfanswm y cyllid refeniw – £948 miliwn

Cyfanswm y cyllid cyfalaf – £1.7 biliwn

Rydym yn wynebu argyfwng hinsawdd a natur.

Wrth lunio ein cynlluniau gwario tair blynedd, gwnaethom gymryd camau radical i'n rhoi yn y sefyllfa orau i ymateb i'r argyfyngau hyn a'u rhoi wrth wraidd ein cynlluniau gwario. Gwnaethom edrych ar sut y byddwn yn gwario ein cyllidebau cyfalaf dros y 10 mlynedd nesaf wrth inni fuddsoddi mewn seilwaith, megis ysgolion ac ysbytai newydd, a sut rydym yn teithio.

Gwnaethom hyn i sicrhau y gallwn gyrraedd ein targed i fod yn Sero Net erbyn 2050. Mae ein cynlluniau gwario tair blynedd hefyd yn cynnwys buddsoddi yn ein hamgylchedd naturiol drwy greu Coedwig Genedlaethol Cymru, yn ymestyn o'r Gogledd i'r De.

Nid ydym wedi lleihau ein huchelgeisiau. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus i sicrhau bod y sector yn parhau i fod yn gynaliadwy, a'i fod yn gallu cefnogi pobl a chyfrannu at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Materion Gwledig

Cyfanswm y cyllid refeniw – £399 miliwn

Cyfanswm y cyllid cyfalaf – £37 miliwn

Mae'r sector amaethyddol yn mynd drwy newid sylweddol yn dilyn penderfyniad y DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r sector wrth inni ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy – y brif ffynhonnell o gymorth gan y llywodraeth i ffermwyr yng Nghymru yn y dyfodol. Rydym wedi diogelu'r rhan fwyaf o gyllid y portffolio Materion Gwledig.

Cyfiawnder Cymdeithasol

Cyfanswm y cyllid refeniw – £142 miliwn

Cyfanswm y cyllid cyfalaf – £18 miliwn

Wrth i'r argyfwng costau byw ddwysáu, rydym wedi blaenoriaethu cyllid lle gallwn ni i gefnogi pobl â'r angen mwyaf.

Rydym wedi darparu cyllid ychwanegol i'r Gronfa Cymorth Dewisol, sy'n darparu taliadau arian parod i bobl mewn argyfwng. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi ein cynllun peilot Incwm Sylfaenol radical a rhaglenni eraill sy'n dathlu amrywiaeth ac yn cydnabod lleisiau a chymunedau cyfoethog Cymru.

Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

Cyfanswm y cyllid refeniw – £331 miliwn

Cyfanswm y cyllid cyfalaf – £10 miliwn

Gyda sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, mae angen inni sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn barod ar gyfer y dyfodol.

Mae cyllid i'r gyllideb Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn talu am staff a TG Llywodraeth Cymru ac am gynnal ei hadeiladau. Fel pob gwasanaeth cyhoeddus arall, mae'r gyllideb hon o dan bwysau sylweddol yn sgil chwyddiant a chostau ynni uchel.

Rydym yn darparu rhywfaint o gyllid ychwanegol i alluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymadau i weithio'n agored ac yn dryloyw gydag Ymchwiliad Covid-19 y DU i sicrhau y craffir yn briodol ar benderfyniadau a wnaed yn ystod y pandemig.

I gael gwybod rhagor am sut rydym yn gwario'r arian hwn ewch i'n gwefan

<https://llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru> lle mae pob maes wedi'i drefnu yn ôl pwnc.

Rydym am wybod eich barn chi am sut mae arian yn cael ei wario yng Nghymru. Ysgrifennwch at y Gweinidog yn y maes y mae gennych ddiddordeb ynddo i ddweud beth rydych chi'n meddwl y dylem wario'r arian arno.

Dyma ddolen i'r dudalen sy'n dweud pa gyfrifoldebau sydd gan bob Gweinidog. Cliciwch ar eu henwau i gael gwybod mwy:

<https://llyw.cymru/aelodau-cabinet-gweinidogion>

Dyma ddolen at gyfeiriadau e-bost y Gweinidogion:

<https://llyw.cymru/cysylltu-a-gweinidogion-llywodraeth-cymru>